**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru

23 Chwefror 2026

Annwyl Lywydd

Ar 12 Chwefror 2026, cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Cynrychiolaeth y Bobl gerbron Tŷ'r Cyffredin.

Mae ehangder a chymhlethdod y Bil yn sylweddol, ac mae'n cynnwys 81 o gymalau ac 11 o atodlenni sy'n ymdrin ag ystod eang o faterion etholiadol, y mae llawer ohonynt yn dechnegol eu natur. Mae fy swyddogion yn gweithio drwy ddarpariaethau'r Bil, a'n dadansoddiad cychwynnol yw bod y Bil yn gwneud darpariaeth berthnasol at ddibenion Rheol Sefydlog 29. Bydd felly yn ofynnol gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Er ein bod wedi ymwneud yn gynhyrchiol â Llywodraeth y DU ac wedi cael cyfle i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r ddeddfwriaeth cyn i'r Bil gael ei gyhoeddi, mae maint a chymhlethdod y Bil, a'i ddatblygiad parhaus hyd at ei gyflwyno, wedi bod yn her o ran cynnal ein gwaith dadansoddi.

Er y bydd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei osod cyn gynted â phosibl, oherwydd maint a chymhlethdod y Bil, bydd hyn y tu allan i'r terfyn amser arferol o bythefnos yn Rheol Sefydlog 29. Ein nod yw gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyn i'r Senedd gael ei diddymu, a hynny o dan y disgwyliad y bydd angen gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol arall ar ôl yr etholiad fel y gall y goblygiadau o ran cydsyniad gael eu hystyried gan y Senedd nesaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, ac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.